**STD 03-02**

# Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

## Agenda

**Dyddiad:** Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2002
**Amser:** 9:30am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

### Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd - 5 munud

**Eitem ar Lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu'n fyr ei ddiben ac yn gofyn am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir aelodau'r pwyllgor i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Dydd Mercher 8 Mai 2002 fel cofnod cywir.

### Eitem 2: Y diweddaraf ac adolygiad o'r gweithredu a gododd o STD 02-02 - 5 munud

**Papurau:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-02(01)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a'r gwaith oedd mewn llaw.

### Eitem 3: Seiri Rhyddion - 30 munud

**Papur:** Papurau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth
- STD 03-02(02) prif bapur
- STD 03-02(02) Atodiad B

Y Pwyllgor i ystyried y papur oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth, sy'n gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar adroddiad drafft diwygiedig ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chanllawiau drafft diwygiedig ar gyfer yr Aelodau.

### Eitem 4: Datganiadau llafar o fuddiant - 30 Munud

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-02(03)

Y Pwyllgor i ystyried y Papur oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth sy'n nodi'r cynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r datganiadau Llafar o fuddiant yn nhrafodion y Cynulliad.

### Egwyl o 15 munud

### Eitem 5: Adolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau (Adolygiad Woodhouse) - 30 Munud

**Eitem Llafar**

Bydd yr Athro Woodhouse yn bresennol i adrodd ar gynnydd yr adolygiad a cheisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar y themâu sydd wedi dod i'r amlwg.

**Eitem 6: Trefniadau Cyn yr Etholiad - 10 Munud**

**Papur:** Papur a gyflwynwyd gan David Lambert - STG 03-02(04)

Y Pwyllgor i ystyried y Papur oddi wrth David Lambert yn gwahodd eu sylwadau ar:

- y defnydd o nwyddau papur y Cynulliad a gwasanaethau llungopïo yn ystod y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf; a
- chynigion am brotocol cyn yr etholiad.

**Eitem 7: Archwiliadau'r Pwyllgorau Pwnc - Gwrthdaro Posibl o ran Buddiannau 10 Munud**

**Papur:** Papur a gyflwynwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 03-02(05)

Y Pwyllgor i ystyried y Papur oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth, sy'n cynnwys darnau allan o gofnodion cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion yn mynegi consyrn am y gwrthdaro posibl o ran buddiannau ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Pwnc.

**Eitem 8:** Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

O'r tymor nesaf, bydd cyfarfodydd y Pwyllgorau yn cael eu cynnal ar brynhawn dydd Iau. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol wedi eu cadarnhau hyd yn hyn.

**Ysgrifenyddaieth, Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**